# Da yw Swllt




# Tua Bethl'em Dref




*Trefniant Meurig Williams*

# Tôn Garol




*Addasiad Meurig Williams*

1. Mae'r flwyddyn yn marw, ei hamser a ddaeth,
O fil o gymylau ei hamdo a wnaeth.
Mae'r gwynt yn galaru a'r glaw red yn rhwydd,
A'r clychau yn tewi, ffarwel yr hen flwydd.

2. Ond dyma flwydd newydd yn dyfod yn llon,
A phawb fel ei gilydd rônt groeso i hon.
Mae'r ifanc a'r henwr yn ysgafn ei droed,
A'r clychau yn canu mor llon ag erioed.

3. Mae'r diog yn sefyll, ond amser ni saf,
Ei hydref na'i aeaf, ei wanwyn na'i haf.
Cynyddu wna'r diwyd a'r gonest o hyd,
O flwyddyn i flwyddyn hyd ddiwedd y byd.

# Tôn Garol




*Addasiad Meurig Williams*